

## ❖ TAWEL NOS

Nid yw Oberndorf ond pentref bychan iawn yn Awstria. Ond fy mhentref i ydyw a dyna paham yr hoffaf feddwl yn aml amdano. Adeg y Nadolig yn enwedig, fe'i gwelaf yn glir yn fy meddwl, pan yw'r eira gwyn yn ddfwn yn ei strydoedd cul, a dim i'w glywed ond tincial ariannaidd y clychau bach wrth yddfau'r ceffylau sy'n tynnu'r ceir llusg di-stŵr ar hyd yr heolydd gaeafol. Yn y pellter cwyd cribau nerthol yr Alpau i'w hentrych mawreddog. Mae'r awyr yn bur ac yn iach, a hyd yn oed liw nos medrwch weld y mynyddoedd yn sgleinio fel dur glas. O'n blaen cwyd tyrrau eglwysi Salzburg, man geni Mozart a chanolfan gerddorol fyd-enwog.

Eithr ni bu Oberndorf erioed yn enwog. Ac eto cafodd y byd un o'i ganeuon hyfrytaf gan y pentref bach anhysbys hwn o'r eiddof fi. Yn y flwyddyn 1818, ar un o'r nosau tawel hyn, y noson cyn Noswyl Nadolig, safai person y pentref yn freuddwydiol yn ei fyfyrfa glyd, yn gwyllo llewylch y gwrid ar yr eira yn sgwâr gwag yr eglwys o flaen y persondy. Gwelai'r ysgoldy lle yr addysgai fy hen dad-cu. Gwelai'r tŵr dŵr hynafol a châi gip ar ddyfroedd tywyll, rhewlyd afon Salzach. A theimlai fod hon yn dawel nos. Drannoeth fyddai Noswyl Nadolig, pryd y llosgai canhwylau bychain dirifedi ar goedydd yn yr holl gartrefi. Disgleiriai llygaid y plant a llenwid calonnau'r bobl â llawenydd a harddwch a gostyngeddwrwydd. Noson sanctaidd oedd hon.

Felly y bu i'r Tad Mohr gael ei ysbrydoli i lunio cerdd fechan a'i galw'n 'Dawel Nos'. Yna aeth drwy'r eira i dŷ ysgol pentref cyfagos Arnsdorf. Wedi cynhesu ychydig ym mharlwr ei gyfaill Franz Gruber, ysgolfeistr y pentref, gofynnodd iddo braidd yn swil a ddarllenai'r ychydig benillion yr oedd newydd eu hysgrifennu, a chyfansoddi alaw arnynt. Wedi i'r Tad Mohr ymadael, ysbrydolwyd Franz Gruber yntau gan gyfaredd llonydd y noson oer, glir, aeafol, Awstraidd honno, ac ysgrifennodd dôn a oedd mor llawn o ansawdd y byd o'i gwmpas, mor syml a gafaelgar, fel na fedrai lai na chyffwrdd calon pawb i'r byw.

Nid cân cyfansoddwr neu fardd arbennig yw 'Tawel Nos'. Cân bentref ac awyrgylch ydyw. Ni allesid bod wedi ei hysgrifennu yn unman arall, dim hyd yn oed gan y person a'r ysgolfeistr y daeth tynged raslon â hwy at ei gilydd. Ni fedrid bod wedi ei hysgrifennu yn Salzburg, nac yn y dref Almaenig yr ochr arall i'r afon. Ni fedrid bod wedi ei hysgrifennu ychwaith gan gyfansoddwyr mawr megis Beethoven a Schubert. Cân syml pentref mewn gwlad agored ydyw, heb ddim i'w amddiffyn ond cynhesrwydd ei ffydd a'i ymddiriedaeth yn ei gartrefi. A dyna paham y daeth yn gân pob pentref, ac yn gân i bawb sy'n meddu ar ffydd ac ymddiriedaeth yn eu cartrefi.

**Leopold Kohr**